**"A"**

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 10fed Chwefror, 2025**, yn Neuadd Goffa, Sarn o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Gwenan Griffiths, Elin Hughes, Efan Thomas

## 85. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd adferiad buan i Robin Williams, priod Y Cynghorydd Glenys Williams.

## 86. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 87. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg IONAWR, 2025

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Ionawr, 2025.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**Eitem 81 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Derbyniwyd** ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw fel a ganlyn:

"*Tŷ Newydd a Manchester House, Sarn*
Mae'r tyllau yma bellach wedi cael sylw.
*Ty Mawr Capel, Bryncroes*
Mae'r twll bellach wedi cael sylw.
*Caffi Congl Meinciau, Botwnnog*
Mae'r twll yma bellach wedi cael sylw.
*Ty'n Maes i Erw Grug, Bryncroes*
Mae'r wll yma bellach wedi cael sylw.
*Penybont a Ty Huw, Llangwnnadl*
Mae'r gwaith yma wedi ei basio i'r uned waith a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael."

**Nodwyd** yr ymateb.

**Yn y cyswllt yma,** derbyniwyd e-bost gan Elin Wyn Hughes, Swyddog Digwyddiadau AHNE yn dweud ei bod ar hyn o bryd yn "gweithio ar brosiect Tirlun Byw… a rhywfraint o gyllid ar gael ar gyfer gwella cynefinoedd." 'Roedd un safle yn yr ardal eisoes wedi dangos diddordeb a dywedodd y byddai yn rhaid ymweld â'r safle ym Mryncroes cyn penderfynu ar goed addas.

**Nodwyd** y wybodaeth.

**Eitem 84 – Wefan y Cyngor**

**Derbyniwyd** ymateb Arfon Parry ei bod yn bosibl ychwanegu tudalen i'r wefan i

gynnwys gweithgareddau cymunedol. Aeth ymlaen i ddweud mai'r broblem "yw fod pobl yn frwdfrydig ar y chwchwyn ond ddim yn adnewyddu'r wybodaeth ar ôl amser." 'Roedd yn barod iawn i gynorthwyo petai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda hyn ac na fyddai "cost ychwanegol, mae'r wefan wedi ei osod i wneud y fath beth yn barod."
**Penderfynwyd** symud ymlaen i roi gwybodaeth ar y wefan ac fod y cyfryw i'w weithredu gan y Cadeirydd a'r Clarc a'r Cyngor i'w adolygu'n fisol.
(noder fod gwybodaeth am hyn yn ymddangos yn rhifyn mis Mawrth o Llanw Llŷn).

## 88. CEISIADAU CYNLLUNIO
Nid oedd unrhyw gais i law.

## 89. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU
**Gofynnodd** Y Cynghorydd Gwenan Griffiths i'r llwyn ochr y ffordd rhwng Trewen a'r Gwaith Trin Dŵr gael sylw.
**Addawodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, Aelod Pen Llŷn ar Gyngor Gwynedd, y byddai'n cael gair â Mr. Caradog Williams, Adran Priffyrd, ynglyn a'r gwydr ar y ffordd rhwng pentref Sarn Mellteyrn a Chrugeran.

## 90. AWDURDOD I DALU
**Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Arfon Parry, Cradur.com – gwe-letya a.y. | £55.00 (200849) |
| Capel Rhydbach, Botwnnog – cyfraniad at y goeden Nadolig | £50.00 (200850) |

## 91. TRETH Y CYNGOR
**Cyflwynwyd** e-bost Y Cynghorydd Siôn Williams yn datgan pryder fod Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfod nesaf yn ystyried codi'r dreth 8.25%. Aeth ymlaen i ddweud "sut mae nhw yn gallu cyfiawnhau hyn pan mae chwyddiant ddim ond yn 2.5% a theuluoedd a busnesau Gwynedd yn ei chael yn anodd i ddal dau ben llinyn ynghyd. Mae pawb arall yn cyllido gyda'r arian sydd ganddynt, pam ddim Cyngor Gwynedd? Waeth iddynt heb a gweld bai ar y Cynulliad o hyd, dylent gyllido yn well."
**Penderfynwyd** yn unfrydol ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw at hyn ac atodir isod y llythyr a anfonwyd ato a'I atebiad:
Llythyr i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt:
"ystyried yn ofalus yr effaith fydd codi Treth y Cyngor 8.5% yn ei gael ar drigolion Gwynedd, Ers 2014 mae Cyngor Gwynedd wedi codi Treth Cyngor 56.3 % ac yn ôl sôn, bwriad y Cyngor yw ei godi 8.5% flwyddyn nesa. O ystyried bod chwyddiant yn 2.5% ar hyn o bryd mae hyn yn godiad enfawr ar dreth y Cyngor. Bydd hyn yn gosod mwy byth o straen ariannol ar ein trigolion, yn bennaf teuluoedd ifanc a phobl hŷn ein hardal sydd yn ei chael hi yn anodd fel ac y mae hi i gael dau ben llinyn ynghyd. Dywedodd un o'n Cynghorwyr fod ei dreth Cyngor wedi cynyddu o £210 y mis yn 2017 i £320 y mis yn 2024.
Dylech hefyd ystyried bod lefelau cyflogau Gwynedd ymhell o dan gyfartaledd gweddill Cymru (36 mil y flwyddyn, gwryw 32 mil y flwyddyn, benyw)
Dim ond 15.6 % o drigolion Gwynedd sydd yn cael cymorth gyda eu Treth Cyngor. Mae'r gostyngiad yma yn cael eu hawlio yn bennaf gan bensiynwyr. Dim ond canran fechan o deuluoedd ifanc yn y categori incwm isaf, sy'n derbyn CTR.
Dywedodd Andrew Bailey Cadeirydd Banc Lloegr yn ddiweddar, yn dilyn adroddiad ar y sector gyhoeddus, fod cynhyrchedd i lawr 8.5% ers y cyfnod clo (2020) a bod y sector cyhoeddus chwyddedig yn tynnu'r economi i lawr. Mae'n edrych yn debyg ein bod ni y trethdalwyr yn talu mwy am lai."
*Derbyniwyd ymateb y Prif Weithredwr fel a ganlyn:*
"Diolch am eich llythyr ac am eich diddordeb dros eich etholwyr ar y pwnc pwysig yma.

Rwy'n llwyr gytuno gyda chi y bydd cynyddu'r dreth yn cael effaith ar holl drethdalwyr Gwynedd ac felly nid ar chwarae bach y bydd yr Aelodau yn dod i benderfyniad ar hyn yng Nghyfarfod y Cyngor fis nesa. Mae gorfod cynyddu'r dreth yn rhywbeth yr hoffai pawb ei osgoi i'r eithaf wrth reswm.

Yn anffodus, mater o reidrwydd fydd cynyddu'r dreth eleni, i gyngor Gwynedd a phob Cyngor arall drwy Gymru. Mae'n ymddangos y bydd y cynnydd yng Ngwynedd tua'r cyfartaledd, gyda'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yn y Gogledd yn gorfod cynyddu'r dreth yn uwch na'r hyn sydd dan ystyriaeth yng Ngwynedd.

Canlyniad uniongyrchol diffyg cyllideb ddigonol ac addas gan Llywodraethau canolog yw'r rheidrwydd i ni orfod cynyddu treth Cyngor wrth gwrs. Er y byddwch yn clywed heddiw o Gaerdydd y bydd ychydig o arian ychwanegol i Awdurdodau Lleol, roeddem fel Cyngor yn wynebu diffyg oddeutu £8.5M wrth geisio gosod cyllideb hafal ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yr unig opsiynau ar gyfer cau'r bwlch hwn yr torri gwasanaethau neu cynyddu'r dreth Cyngor. Yn dilyn cyflawni toriadau o £74M (bron i chwarter ein cyllideb refeniw) dros y 15 mlynedd ddiwethaf, nid oedd Aelodau'r Cyngor yn gefnogol i weithredu toriadau ciaidd a fyddai wedi golygu effaith sylweddol ar faterion megis gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion. Byddai'r effaith uniongyrchol ar ein holl gymunedau wedi bod yn sylweddol.

Yr unig opsiwn arall fydd cynyddu'r dreth Cyngor, a gyda chalon drom y bydd yr Aelodau yn gorfod ystyried hynny mis nesa.

Gobeithio fod yr uchod yn rhoi mwy o oleuni ar y sefyllfa amhosib sy'n wynebu Awdurdodau Lleol ledled y wlad ar hyn o bryd. Mawr obeithiwn y bydd ein Llywodraeth yn blaenoriaethu gwasanaethau lleol dros y blynyddoedd i ddod ac y byddwn mewn gwell sefyllfa pan y daw i ystyried lefel y dreth cyngor."

**Noder** – fod pob aelod wedi derbyn copi o'r ohebiaeth yma ac hefyd bydd y cyfryw yn cael ei ddyfynu'n llawn yn rhifyn Mawrth o Llanw Llŷn.

92. **TENDRAU BARBIO**

**Un tendr** ddaeth i lawr yn dilyn hysbyseb yn rhifyn Ionawr o Llanw Llôn, ac agorwyd y cyfryw gan y Cadeirydd yn y cyfarfod. Tendr o eiddo J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy oedd fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2025, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £550 + TAW**.

2. Barbio Comin Bryncroes (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) a'r Comin Bach am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2025); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £1,050 + TAW.**

3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£20.00 yr awr + TAW.**

**Penderfynwyd** derbyn y cyfryw.

93. **UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU**

**Cyflwynwyd** llythyr ar y cyd rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Is-bwyllgor Trafnidiaeth

Stategol Gogledd Cymru – copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen.
**Penderfynwyd** ymateb mai ychydig iawn o sôn sydd am ddim datblygiad ym Mhen Llŷn; yr angen am drafnidiaeth cyhoeddus yma; gwella'r ddarparieth gwasanaeth cyhoeddus; creu llwybr beic o Aberdaron i Bwllheli; tynnu'r cloddiau yn ôl er hwyluso trafnidiaeth ar ffyrdd cefn gwlad – bydd hyn i gyd yn gymorth ac yn rhoi hwb i'r economi leol.
Noder – fod manylion cysylltu i'r arolwg yma wedi ei gynnwys yn rhifyn Mawrth o Llanw Llŷn gan annog y trethdalwyr i ymateb i'r holiadur.

94. **YSGOL DDEINTYDDIAETH YM MANGOR**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Siân Gwenllian, Aelod Seneddol dros Arfon, yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i geisio sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor. Gofynnodd am i'r Cyngor ystyried anfon llythyr at Jeremy Miles, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ym Mae Caerdydd ar y llinellau isod:
"Ysgrifennaf atoch ar ran Cyngor Cymdeithas Botwnnog i'ch hysbysu ein bod wedi pasio cynnig yn ein cyfarfod 10fed Chwefror, 2025, yn datgan cefnogaeth lawn i alwadau Siân Gwenllian AS dros sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.
Byddwch yn ymwybodol iawn o'r heriau difrifol sy'n wynebu'r gwasanaethau deintyddol yng Ngogledd Cymru. Mae llawer o'n hetholwyr yn methu a chael mynediad at ofal deintyddol sylfaenol, ac mae'r sefyllfa yn cael effaith andwyol ar iechyd a lles ein cymunedau.
Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y byddai Ysgol Ddeintyddol ym Mangor yn gam sylweddol ymlaen. Byddai hyn nid yn unig yn helpu i hyfforddi ac ysgogi deintyddion i weithio yn y Sir ond hefyd yn cryfhau gwasanaethau iechyd deintyddol yn y tymor hir, gan sicrhau manteision sylweddol i'r gymuned leol.
Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym i gefnogi'r cynnig hwn ac i gydnabod ei botensial i wella iechyd deintyddol a chynyddu cyfleoedd economaidd yng Ngogledd Cymru.
Rydym wedi atodi'r cynnig perthnasol, a diolchwn i chi am eich sylw i'r mater pwysig hwn. Edrychwn ymlaen at eich ymateb."
Gweler isod y cynnig:
"Mae'r Cyngor hwn yn datgan ei gefnogaeth lawn i alwadau Siân Gwellian AS dros sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.
Rydym yn cydnabod yr argyfwng parhaus mewn gwasanaethau deintyddol yng Ngogledd Cymru, sydd wedi gadael llawer o drigolion yn methu a chael mynediad at driniaeth sylfaenol. Credwn y byddai sefydlu Ysgol Ddeintyddol yn cynyddu'r gallu i hyfforddi a chadw deintyddion yn y rhanbarth, gan sicrhau bod iechyd deintyddol ein cymunedau yn gwella yn sylweddol. Rydym hefyd yn cydnabod y budd economaidd y gallai datblgiad o'r fath ei gynnig i'n Sir.
Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymateb yn gadarnhaol i'r alwad hon, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y byddai Ysgol Ddeintyddol yn ei chael ar ein cymunedau.
Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts
Eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams
Dyddiad; 10fed Chwefror, 2025."

95. **LLOCHES BWS YM MOTWNNOG**

**Adroddodd** Cynghorydd Gareth Williams, Aelod Pen Llŷn ar Gyngor Gwynedd, iddo gynnal trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd er ceisio sicrhau cael un o'r llochesi bws maent yn eu dynnu i lawr yng Nghaernarfon. Adroddodd ymehllach ei fod wedi cael gair â Rheolwraig Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, ac roedd hithau yn hapus i leoli'r lloches ger y Feddygfa er budd y trigolion lleol ac hefyd y cleifion.
**Penderfynwyd** symud ymlaen i sichrau'r lloches ac i wneud ymholiadau ynglyn a oedd

angen caniatad cynllunio; yswiriant a.y.
Diolchwyd i'r Cynghorydd Gareth Williams a wneud yr ymholiadau a sicrhau'r lloches.

96. **PENTREF Y PWYLIAID YM MHENRHOS**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Emma Hanson fod y cynlluniau ar gyfer ailddatblygu Pentref y Pwyliaid ym Mhenrhos yn mynd ymlaen – gweler yr atodiad i'r cofnodion hyn er cael y darlun cyflawn.
**Nodwyd** y wybodaeth.